CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION CHWEFROR 19, 2019

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Brithdir**
**Nos Fawrth, Chwefror 19, 2019 am 7:30 o'r gloch.**

**Presennol** Cynghorwyr: Mordaf Roberts (Cadeirydd), Rhun Prys Jones, Hugh A. Evans, Meurig Ashton, Gerallt Griffith, Peredur Jenkins, Barry Jones. Hefyd Henry M. Edwards.

**1. Croeso'r Cadeirydd** Croesawyd pawb oedd yn bresennol.

**2. Ymddiheuriadau:** Emlyn Roberts, Llion Rh. Williams.

**3. Datgan diddordeb.**

Nid oedd neb yn datgan diddordeb.

**4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Ionawr 15, 2019**

Cynigwyd ac eiliwyd fod y cofnodion yn gywir.

**5. Materion yn codi o'r cofnodion Ionawr 15, 2019**

Nid oedd materion yn codi.

**6. Gohebiaeth**

a. Llythyr (22/1/2019) oddi wrth Un Llais Cymru. Cyfle i'r Cadeirydd a'i gwestai cael gwadd i Arddwest Ei Mawrhydi ym Mhalas Buckingham ar 15 Mai, neu 21 Mai, neu 29 Mai. Os mae diddordeb maent angen gwybod cyn 1/2/2019.

b. Llythyr (23/1/2019) a galwad ffôn oddi wrth Mrs Claire Rowlands, Drwsynant, yn gofyn am bin halen sydd ar gyfer tai Glan Wnion cael ei lenwi a rhoi bin halen ar waelod y rhiw (wrth Station House).

Rhoddwyd gwybod (23/1/2019) i Priffyrdd i wneud y gwaith.

Llythyr (31/1/2019) oddi wrth Mrs Rowlands yn rhoi gwybod mae'r biniau halen wedi eu llenwi a bod lori graeanu wedi bod yn graeanu'r ffordd. Roedd yn diolch am inni roi'r neges i Priffyrdd.

c. Galwad ffôn (29/1/2019) oddi wrth Mrs Ann Hughes, Ffrithgoch Uchaf, Llanfachreth yn gofyn am lenwi bin halen sydd wrth Ffrithgoch Uchaf a bin halen sydd wrth Capel Ffrwd.

Rhoddwyd gwybod (29/1/2019) i Priffyrdd i wneud y gwaith.

ch. Llythyr (21/1/2019) oddi wrth Ymddiriedolaeth Gofalwyr Gogledd Cymru. Maent angen cymorth arianol.

d. Llythyr (29/1/2019) oddi wrth Tenovous Gofal Canser. Maent angen cymorth arianol.

dd. Llythyr (1/2/2019) oddi wrth Eisteddfod Genedlaethol Sir Conwy. Maent angen cymorth arianol.

e. Llythyr (6/2/2019) oddi wrth Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen. Maent angen cymorth arianol.

f. Galwad ffôn (4/2/2019) oddi wrth Mr Peter Michael yn gofyn am lennwi bin halen sydd wrth Tir y Mynydd, Llanfachreth (LL40 2EG).

Rhoddwyd gwybod (4/2/2019) i Priffyrdd i wneud y gwaith.

Galwad ffôn (7/2/2019) oddi wrth Mr Michael yn diolch am yr halen.

ff. Llythyr (4/2/2019) oddi wrth Mr Peter Jones yn gofyn am bin halen wrth fynedfa i Gwel y Garn, Llanfachreth (LL40 2EH).

Rhoddwyd gwybod (4/2/2019) i Priffyrdd i wneud y gwaith.

Llythyr (5/2/2019) oddi wrth Priffyrdd yn rhoi gwybod maent yn fodlon trefnu i osod ar y safle bin ond fydd y gost oddeutu £300. Rhoddwyd gwybod iddynt ohirio'r cais am y tro er mwyn cael penderfyniad yn ein Cyfarfod.

Penderfynwyd rhoi gwybod i Priffyrdd nid oes angen bin halen yn Gwel y Garn.

g. Llythyr (2/2019) oddi wrth Pennaeth Strategol, Ysgol Bro Idris yn rhoi gwybod mae angen cynrychiolydd Cymunedol i weithredu ar Gorff Llywodraethu'r ysgol. Mae'r Corff Llywodraethu yn chwilio am enwebiad Cymunedol o ddalgylch Ysgol Bro Idris. Os mae gan Gynghorwr diddordeb maent angen yr enw erbyn Chwefror 28, 2019.

Penderfynwyd rhoi gwybod i'r ysgol nid oes gan y cynghorwyr diddordeb i fod ar Gorff Llywodraethu'r ysgol.

h. Llythyr (5/2/2019) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod bydd cyfarfod Pwyllgor Ardal Meirionnydd yn Llyfrgell Rydd, Dolgellau ar ddydd Mercher, Chwefror 20, 2019 am 7.00yh. Bydd cynrychiolydd o Drafnidiaeth Cymru yn bresennol. Amgáu mae Agenda, Cofnodion cyfarfod Tachwedd 28, 2018, a Chofnodion cyfarfod Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol, Maes y Sioe Amaethyddol ar Ragfyr 14, 2018.

i. Llythyr (7/2/2019) oddi wrth Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Meirionnydd. Maent angen cymorth arianol.

l. Llythyr (19/2/2019) oddi wrth Eisteddfod Gadeiriol Llanfachreth. Maent angen cymorth arianol.

**7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

a. Llythyr (24/1/2019) yn rhoi gwybod mae'r adroddiad yr Arolygydd ar yr Archwiliad i Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Eryri wedi cael ei gyhoeddi ac mae ar gael yn llyfrgell Dolgellau neu http://www.eryri.llyw.cymru/ldp Bydd y Cynllun Datblygu Lleol Diwygedig (2016-2031) yn cael ei fabwysiadu mis Chwefror2019

Llythyr (11/2/2019) yn rhoi gwybod bod Cynllun Datblygu Lleol Eryri (2016-2031) wedi ei fabwysiadu ar 6/2/2019. Mae gwybodaeth ar gael yn llyfrgelloedd cyhoeddus ac ar http://www.eryri.llyw.cymru/ldp

b. Ceisiadau cynllunio:

i. NP5/54/565A. Cynllun Trydan-dŵr (100kw) yn cynnwys argae wedi ei ailwampio, pibell wedi ei rhanol gladdu, adeilad tyrbin, all-lif a chysylltiad i'r grid wedi ei gladdu (Ail Gais). Afon Celynog Isaf, Rhydymain.

Penderfynwyd cefnogi'r cais.

ii. NP5/54/566A. Cynllun Trydan-dŵr (100kw) yn cynnwys argae, pibell wedi ei gladdu, adeilad tyrbin, all-lif a chysylltiad i'r grid wedi ei gladdu (Ail Gais). Afon Celynog Uchaf, Rhydymain.

Penderfynwyd cefnogi'r cais.

iii. NP5/54/LB226A. Estyniad unllawr to llechi yng nghefn y tŷ sy'n cynnwys cegin / ystafell fwyta a throsi'r beudy wrth dalcen Dwyreiniol drwy greu ystafell ymolchi a gwely ar y llawr gwaelod gyda grisiau yn arwain at lanfa ac ystafell wely ar y llawr cyntaf. Tŷ Cerrig, Rhydymain.

Penderfynwyd cefnogi'r cais.

iiii. NP5/54/LB226. Caniatâd Adeilad Rhestredig am estyniad unllawr to llechi i gynnwys cegin ac ystafell fwyta yng nghefn yr adeilad, addasiadau mewnol i'r fynedfa, ystafell aml-bwrpas a stydi a throsi'r beudy ar dalcen Dwyreiniol drwy greu agoriad o'r ystafell fyw a chreu ystafell ymolchi a gwely ar y llawr gwaelod gyda grisiau yn arwain at y lanfa i'r ystafell wely ar y llawr cyntaf ar holl waith perthnasol yn cynnwys ail doi adeilad allanol. Tŷ Cerrig, Rhydymain.

Penderfynwyd cefnogi'r cais.

c. Llythyr (12/2/2019) yn rhoi gwybod bod llwybr pren sydd wedi ei osod dros Waun Camddwr, y llwybr sy'n arwain o Blaencywarch i gopa'r Aran Fawddwy, wedi dirywio ac angen ei ailosod. I leihau costau gwaith cynnal a chadw'r llwybr pren i'r dyfodol maent yn considro adnewyddu'r llwybr pren gyda phlastig wedi ei ailgylchu neu 'composite board decking' y ddau ddim yn warpio neu bydru mewn llefydd gwlyb. Mae'r Parc yn dymuno defnyddio plastic oherwydd eu cefnogaeth ar ailgylchu. Mae'r 'composite board decking' yn edrych fel pren iawn. Cyn gwneud y gwaith bydd sampl o'r deunydd yn cael ei osod i sicrhau ei fod yn addas.
Mae'r gost i wneud y gwaith yn mynd i fod yn ddrud gyda chost ychwanegol i gludo'r deunydd i Waun Camddwr.

Cyn gwneud unrhyw waith maent angen gwybod os rydym yn gytûn a chefnogi'r prosiect o adnewyddu'r llwybr coed. Maent angen gwybod hefyd ein ffafriaeth - dewis planciau plastig wedi ei ail gylchu neu 'composite board decking'.

Derbyniwyd fwy o wybodaeth (18/2/2019) am y cynllun. Mae 'composite board decking' yn debycach i bren naturiol na'r plastic wedi ei ailgylchu. Derbyniwyd lluniau yn dangos 'composite board decking' a plastic wedi ei ailgylchu

Penderfynwyd rhoi gwybod i'r Parc ein bod yn cefnogi'r prosiect ac yn fodlon gyda defnyddio planciau plastic.

**8. Materion Ariannol**

a. Llythyr (30/11/2017) oddi wrth Llywodraeth Cymru. Swm priodol o dan Adran 137(4) (a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. 'Gwariant Adran 137': Y terfyn ar gyfer 2018-19. Maent yn rhoi gwybod gall Cynghorau Cymuned wario ar gyfer blwyddyn ariannol 2018-19 £7.86, am bob etholwr, i sefydliadau sydd angen arian.

Bydd yr uchafswm yn £7.86 x 601 = £4,723.86.

b. Ceisiadau derbyniwyd am gymorth ariannol 2018 / 2019:

Cymdeithas Y Dydd, Yr Elusen Amaethyddol Frenhinol (RABI Meirionnydd); Canolfan Therapi Bobath Cymru; Sioe Arddwriaethol ac Amaethyddol Rhydymain a'r Cylch; Meithrinfa Seren Fach, Brithdir; Marie Curie; Dawns i Bawb; Cwmni Bara Caws Cyf; Calonnau Cymru; Llên y Llannau, Ymddiriedolaeth Gofalwyr Gogledd Cymru, Tenovous Gofal Canser, Eisteddfod Genedlaethol Sir Conwy, Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen, Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Meirionnydd, Eisteddfod Gadeiriol Llanfachreth.

Penderfynwyd rhoi arian i sefydliadau canlynol::

Adran 137(4) (a) Deddf Llywodraeth Leol 1972:
Llên y Llannau: £50.00
Ambiwlans Awyr Cymru: £200
RABI Meirionnydd = £100
Cymdeithas Y Dydd = £100
Rhoddwyd £50 i Tîm Achub 'Y Dydd' yn cyfarfod Gorffennaf 17, 2018.

Adran 145 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (adloniant, celfyddydau):
Eisteddfod Llanfachreth: £200
Sioe Arddwriaethol ac Amaethyddol Rhydymain a'r Cylch = £100
Eisteddfod Genedlaethol 2019 Sir Conwy = £100

Adran 19 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 (cyfleusterau hamdden):
Clwb Ffermwyr Ifanc Dolgellau: £200.00
Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Meirionnydd - £250

Adran 133 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (adeiladau ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus):
Neuadd Brithdir: £500.00
Neuadd Rhydygorlan: £500.00
Neuadd Llanfachreth: £500.00
Neuadd Rhydymain: £500.00

Cyfanswm = £3,350

c. Llythyr (12/2/2019) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod beth maent yn eu gwneud.
Ffurflen Aelodaeth oddi wrth Un Llais Cymru yn gwahodd y Cyngor i adnewyddu aelodaeth ag Un Llais Cymru am 2019 / 2020. Tâl Aelodaeth yw £132.

Penderfynwyd talu'r tâl aelodaeth.

ch. Llythyr (18/2/2019) oddi wrth Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol Llywodraeth gyda Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer blwyddyn ariannol 2019-2020. Mae'r adroddiad ar we
Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol: adroddiad blynyddol 2019 i 2020
Adran 13 sy'n berthnasol i gynghorau tref a chymuned.
Yn yr adroddiad gall unigolyn wrthod derbyn taliadau yn rhanol neu'n llwyr os ydynt yn dymuno a gwneud hynny trwy ysgrifennu'n bersonol at y swyddog priodol.
Taliadau tuag at gostau a threuliau:
Rhaid i bob cyngor cymuned a thref sicrhau bod taliad o £150 y flwyddyn ar gael i'w haelodau fel cyfraniad at gostau a threuliau.
Ad-dalu costau teithio a chostau cynhaliaeth:

Mae opsiwn gan bob cyngor i ad-dalu costau teithio a chostau cynhaliaeth. Lwfansau milltiroedd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi 45c y filltir.

Cytunodd yr aelodau ddim i dderbyn y taliad o £150. Derbyniwyd llythyr gan yr aelodau yn nodi hyn.

d. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29 Ionawr, 2019: £1,138.19

dd. Balans yn y banc ar 29 Ionawr, 2019: £5,656.59.

e. Gwariant sy'n debygol am weddill y flwyddynn gan ddefnyddio ffigyrau 21/02/2018 – 31/03/2018 fydd £3,126.00. Mae £3,126.00 < £6,794.78, felly nid oes risg o gorwario.

**9. Adroddiad Cynghorydd Peredur Jenkins**

a. Anfonwyd llythyr (28/1/2019) i Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod iddynt ei fod yn anfodlon gyda'r trefniant i adran Fwrdeistrefol i sgubo dail o'r ffyrdd gwledig oherwydd nid yw'r gwaith wedi cael ei wneud ers mis Hydref gan achosi'r fyrdd fod yn beryglus. Awgrymwyd i'r gwaith cael ei wneud gan adran Priffydd achos y nhw sy'n cynnal a chadw'r ffyrdd.

Llythyr ateb (31/1/2019) yn rhoi gwybod bydd sylw yn cael ei roi i'r mater.

b. Llythyr (31/1/2019) oddi wrth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bod y bin halen wrth Abergeirw Bach wedi ei lenwi.

c. Cafwyd wybod bod Peredur Jenkins yn ymddeol o Gabinet Cyngor Gwyneth ym mis Mawrth.

**10. Unrhyw fater arall**

a. Penderfynwyd i Meurig Ashton gwneud mân waith o atgyweirio hysbysfyrddau sy'n Brithdir a Rhydymain.

Llofnod: Dyddiad: